# ASESIAD EFFAITH CYFOETH NATURIOL A BIOAMRYWIAETH O'R BIL DATBLYGIAD TWRISTIAETH A RHEOLEIDDIO LLETY I YMWELWYR (CYMRU)

## CEFNDIR

Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety i ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanarlwyo. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru, drwy sicrhau ymwelwyr bod llety yn bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl a darparu trefn glir i ddarparwyr.

Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf VARL"). O dan y Ddeddf honno, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (WRA) yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn manylu ar y math o safleoedd y maent yn eu gweithredu ledled Cymru a'u lleoliad. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

Bydd y Bil yn ategu mesurau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Canlyniad eilaidd y Bil hwn fydd sicrhau mwy o gysondeb rhwng y drefn rheoleiddio llety ymwelwyr hunanarlwyo â threfn rheoleiddio'r sector preifat, gan gyflwyno safonau cyson ar gyfer y llety hwnnw, a monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hynny.

Mae'r Bil hefyd yn creu Cod Cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r bwriad o wella hygyrchedd deddfwriaeth ym maes twristiaeth.

## TWRISTIAETH A'R AMGYLCHEDD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ein polisïau. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys ystyried goblygiadau hirdymor, cydweithio â phobl, cymunedau, a'i gilydd, gweithredu i atal problemau, fel newid yn yr hinsawdd a defnyddio dull mwy integredig.

Mae Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig yn disgrifio twristiaeth gynaliadwy fel yr hyn sy'n "ystyried yn llawn ei effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac yn y dyfodol, gan fynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd, a chymunedau lletyol.

Mae twristiaeth yng Nghymru yn tynnu'n helaeth ar argaeledd adnoddau naturiol o ansawdd uchel ac ecosystemau iach, gyda chynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan greiddiol o Flaenoriaethau 2020-2025 ar gyfer yr Economi Ymwelwyr. Daw pobl i weld ardaloedd o harddwch naturiol yng Nghymru ac i grwydro'r amgylchedd naturiol sydd yng Nghymru.  Caiff Cymru ei hystyried fel cyrchfan ar gyfer gweithgareddau awyr agored – canfyddiad sy'n cael ei gefnogi gan yr amgylchedd gwyrdd a naturiol.

## Y POLISI ADNODDAU NATURIOL

Ni fydd cyflwyno cynllun rheoleiddio ar gyfer llety ymwelwyr yn cyflawni unrhyw un o'r blaenoriaethau cenedlaethol yn uniongyrchol yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Nid yw'n bwriadu effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd na newid ymddygiad twristiaid. Fodd bynnag, efallai y bydd effeithiau eilaidd o'i gyflwyno, os bydd yn effeithio ar y galw gan dwristiaid.

Er enghraifft, gallai gwella twristiaeth yng Nghymru drwy sicrhau bod darparwyr llety ymwelwyr yn ymwybodol o amodau diogelwch ac yn cadw atynt ddenu mwy o dwristiaid. Gallai hyn arwain at fwy o effaith ar yr amgylchedd, ond mae hyn yn anodd ei amcangyfrif.  Yn yr un modd, os bydd nifer yr ymwelwyr yn gostwng oherwydd bod rhai darparwyr llety ymwelwyr yn dewis cau eu busnesau, efallai y bydd disgwyl i hyn leihau llygredd ac allanoldebau negyddol eraill twristiaeth.

## BIOAMRYWIAETH

Nid yw'r Bil Datblygiad Twristiaeth a Rheoleiddio Llety i Ymwelwyr (Cymru) (o hyn ymlaen cyfeirir ato fel 'y Bil') yn effeithio'n uniongyrchol ar bolisi bioamrywiaeth neu adnoddau naturiol. Fodd bynnag, nododd ymchwil ansoddol ein hamgylchedd naturiol a'n golygfeydd fel cryfderau sylweddol sy'n gwneud i Gymru deimlo'n unigryw o'i gymharu â chyrchfannau gwyliau eraill yn y DU.

Oni bai y gallwn ddiogelu'r rhain, yna gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Gall ymwelwyr effeithio'n negyddol ar y dirwedd a'r harddwch naturiol sy'n denu ymwelwyr i Gymru.

Gallai'r Bil helpu busnesau twristiaeth Cymru i ddod yn fwy cynaliadwy. Er enghraifft, gallai darparwyr llety ymwelwyr ddod yn fwy ymwybodol o Addewid Twf Gwyrdd Twristiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth i fusnesau gydag ystod o gamau gweithredu ymarferol y gallant eu cymryd i wella eu cynaliadwyedd.

Rydym wedi adolygu'r ffynonellau gwybodaeth diweddaraf i lywio'r asesiad hwn. Nid yw'r Bil yn effeithio ar y rhywogaethau a'r cynefinoedd o bwysigrwydd pennaf fel y'u rhestrir a'u cyhoeddir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae disgwyl i'r  Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 a'r Datganiadau Ardal a gyhoeddir gan CNC fod yn berthnasol pan fydd yr awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau lleol am dwristiaeth.

Yn yr un modd, nid yw'r Bil yn rhoi sylw i adeiladu na rheoli tir, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac felly mae cofnodion bioamrywiaeth ar gael drwy'r Canolfannau Cofnodion Lleol yr Amgylchedd , Atlas Cymru Fyw neu MapData Cymru.

Gan mai pwrpas y ddeddfwriaeth hon yw rheoleiddio llety i ymwelwyr yng Nghymru, ni fydd unrhyw effaith ar gefnogi mentrau gwyddoniaeth dinasyddion na chynlluniau monitro, ac ni fydd yn casglu unrhyw ddata bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae potensial i'r rheoleiddiwr neu awdurdodau lleol ddefnyddio'r cynllun hwn i ddylanwadu ar fusnesau i gefnogi gweithredu bioamrywiaeth. Gallai effaith gronnol gwthio a dylanwadu ar fusnesau a'u cleientiaid dros y blynyddoedd helpu i adeiladu capasiti ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth mewn arweinwyr busnes. Gallai hyn gyfrannu at amcan 1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

## NEWID HINSAWDD

Rydym wedi ystyried effaith y cyngor hwn ar garbon. Nid ydym wedi mesur yr allyriadau sy’n gysylltiedig ag ef gan ein bod yn disgwyl iddynt ostwng islaw’r trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Rydym yn hyderus iawn fod ein hasesiad yn gywir.

## ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

Nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ar gyfer y polisi hwn. Mae Cyfarwyddeb yr UE (2001) 2001/42/EC yn asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd.  Dylid asesu pob cynllun a rhaglen yn y DU sy'n dod o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb ar gyfer prosiectau adeiladu neu ddatblygu mawr.

Mae Erthygl 3(2) yn gwneud SEA yn orfodol ar gyfer cynlluniau a rhaglenni sy'n cael eu paratoi ar gyfer twristiaeth. Er bod y cynllun hwn yn ymwneud â thwristiaeth, nid yw'n gosod fframwaith ar gyfer unrhyw ganiatâd datblygu yn y dyfodol ac ni fydd yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar yr amgylchedd.

## ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

Nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith gan na fydd y Cynllun yn effeithio ar rwydwaith safleoedd gwarchodedig Ewropeaidd Natura 2000.

## ASESU EFFEITHAU AMGYLCHEDDOL

Nid yw'r Bil yn brosiect sy'n gofyn am ganiatâd datblygu ac felly nid yw'r gwahanol reoliadau sy'n gofyn am asesiad effaith amgylcheddol yn berthnasol.